

Caerdydd

Canllaw Dylunio Bywiadwyedd



Creu Llefydd,
Dylunio Trefol,
Pensaerniaeth

Mai 2015

**Creu'r Brifddinas
Orau i Fyw ynddi
Yn Ewrop**

gwnewch
wahaniaeth



Cynnwys

Cyflawni Safonau Uchel	04
Golwg	05
Am y ddogfen hon	08
10 Egwyddor uwchgynllunio	09

Atodiadau

A) Gwaddol	25
B) Rhestr wirio'r Uwchgynllun	26
C) Nodyn prosesu	28

Cyflawni safonau uchel

Caerdydd fydd y Brifddinas orau i fyw ynnddi yn Ewrop.

Bydd aneddiadau newydd yn dangos y gorau yn arfer da yn y DU ac Ewrop o ran ystod o ddangosyddion 'bywiadwyedd' allweddol fel ansawdd bywyd, hunaniaeth, manau cyhoeddus a gwyrdd, trafndiaeth a chynaliadwyedd. Ategir yr uchelgais hwn gan Archwiliad Trefol yr UE sy'n gosod Caerdydd yn uchel yn erbyn ystod o ddinasoedd cymharol yn Ewrop.

Bydd dylunio gwyb, egni creadigol a buddsoddiad sy'n edrych at y dyfodol yn rhan o'r gwaith o gynllunio a chreu safleoedd datblygu.

Byddwn yn gweithio'n galed i hwyluso cyfathrebu a gwaith partneriaeth cryf lle gall pobl weithio gyda'i gilydd i feddwl am atebion dros y blynyddoedd i ddatrys problemau a gwireddu gweledigaeth a rennir.

Byddwn yn hyrwyddo sicrwydd i gyflawni system drafnidiaeth gyhoeddus ragorol i argyhoeddi pobl i fuddsoddi. Byddwn yn annog dull rhagweithiol o ddiffinio gweledigaeth o drafnidiaeth gynaliadwy yn y rhanbarth ehangach, i alluogi Caerdydd i newid ymddygiad teithio pobl yn raddol.

Mae rhoi pobl a dyluniad wrth wraidd y syniad o greu lle yn hanfodol i lwyddo. Gwnawn hyn, gan annog datblygwyr i wneud yr un fath.

Gweledigaeth o brifddinas 'fywiadwy'

Creu Canolfannau, Strydoedd a Llefydd Newydd Deniadol a Bywiog Bywiog

Creu llefydd a strydoedd gwyh i bobl – llefydd croesawgar.

Canolfannau cymdogaethau a hybiau sy'n llawn bywyd, busnesau, siopau a chyfleusterau.

Ysbrydoli ffocws newydd i'r gymuned, rhannu a chyfarfod.

Cyfleusterau iechyd, hamdden a dysgu.

Integreiddio byw a gweithio'n llawn.



Brighton, New Road
drwy gwrteisi Jan Gehl Architects

Canolbwyntio ar Ddylunio

Gystal ag unrhyw beth yn Ewrop.


Pensaerniaeth ddeniadol a llefydd dymunol.

Strydoedd gwyrdd, tirluniau ac adeiladau ynni effeithlon.

Cartrefi at ffyrdd gwahanol o fyw a phobl o bob oedran, gyda digon o le a golau.

Cymunedau'n rheoli llefydd cyhoeddus.


Dulliau cydweithredol o gefnogi cymunedau amrywiol a bywiog.



Icon Street,
Gwlad yr



liburg



Integreiddio Byw a
Gweithio'n Llawn,
Drwy gwrteisi
Urban linitiativess

Dathlu Caerdydd – Dinas Wych

Yn dathlu diwylliant a dylanwadau cyfoes Cymreig a rhyngwladol.

Gwneud y gorau o dirwedd, adeiladau, lonydd coedydd, afonydd a mannau agored lleol.

Olion y gorffennol: atgofion o dreftadaeth gyfoethog a bywiog.

Treftadaeth i ymfalchïo ynddi



Teithio Cyfleus, Cyflym a Chyfforddus

Creu rhwydwaith cyflym, cyfleus a chyfforddus o opsiynau teithio.

Gwasanaethau bws a thram parod i ganol y ddinas a thu hwnt.

Mwynhau taith ar y beic ar hyd llwybrau beic diogel a phrifyrdd beiciau newydd i'r gwaith.

Tripiau cyflym a chyfleus i'r ganolfan siopa neu'r ysgol leol.



Amgylchedd Gwyrdd a Chyrchfan Hamdden

Mynediad i dirweddau gwyrdd a pharciau gwyh; myfyrio am ennyd wrth nodwedd dŵr neu waith celf.

Llefydd i bobl ifanc eu mwynhau a'u crwydro'n ddiogel; amgylchedd lle gallant gerdded a beicio i'r ysgol yn ddiraffferth.

Cyfleoedd lleol i fod yn ffit a mwynhau byw'n iach, chwaraeon a hamdden.



Arloesol ym maes Ynni a Chysylltiadau digidol.

Y technolegau diweddaraf yn cysylltu'r gymuned leol â phobl ymhobman.

Cyflenwadau ynni cynaliadwy gan arbed adnoddau a lleihau'r effaith ar y byd.

Cartrefi a chymdogaethau newydd ynni effeithlon – rhoi pŵer yn ôl i'r gymuned



Am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau creu llefydd, cynllunio a dylunio trefol y bydd y Cyngor yn cadw atynt mewn safleoedd datblygu strategol ledled y ddinas. Cyflawnir hyn drwy gynnal trafodaeth barhaus â datblygwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mae'r ddogfen yn nodi disgwyliadau'r Cyngor, gan amlygu nifer o egwyddorion sy'n cyfeirio at uwchgynllunio, y mae angen mynd i'r afael â nhw mewn ffordd holistig er mwyn gwireddu'r Weledigaeth a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Disgwylir i ddatblygwyr allu defnyddio'r canllawiau hyn fel man cychwyn i lywio cynigion mewn trafodaeth â'r Cyngor. Mae'n benodol ar gyfer datblygiadau mawr, lle mae anheddiad neu gymuned newydd yn cael ei chreu a fydd yn cael effaith ar y Ddinas a'r Rhanbarth. Nid disodli'r cynllun polisi yw'r bwriad.

Mae'r wybodaeth yn bennaf ar gyfer datblygwyr a'u hasiantau, a gobeithio y bydd yn helpu aelodau'r cyhoedd i fod yn rhan o'r broses ddatblygu.

Mae'r wybodaeth yn datblygu'r Deg Egwyddor Gyffredinol yn y Papur Cefndirol ar y Fframwaith Uwchgynllunio (a atodir i'r CDLI er archwilio) gyda chanllawiau, darluniadau ac astudiaethau achos ychwanegol.

Mae'n ategu canllawiau cenedlaethol PCC, NCT 12: Dylunio a Chanllawiau Cynllunio Ategol y Cyngor.

10 Egwyddor uwchgynllunio

- 01 Dull / proses uwchgynllunio
- 02 Dwysedd datblygu
- 03 Coridorau trafnidiaeth gynaliadwy
- 04 Dewisiadau teithio cynaliadwy
- 05 Canolfannau cymdogaeth a defnydd cymysg
- 06 Cynllun tai a'u cymeriad unigryw
- 07 Integreiddio ag ardaloedd cyfagos
- 08 Mannau gwyrdd a glas agored strategol cysylltiedig
- 09 Tirlun, bioamrywiaeth, treftadaeth a'r Gymraeg
- 10 Effeithlonrwydd adnoddau a thechnoleg

01 Dull / proses uwchgynllunio


Beth rydym am ei gyflawni:

Partneriaeth rhwng ystod o bobl: gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd, Cyngor Dinas Caerdydd a Chomisiwn Dylunio Cymru, sy'n rhan o broses gydweithio hirdymor i ddylunio llefydd cynaliadwy o'r radd flaenaf.



Cyfle:

- Paratoi uwchgynllun cydweithredol, gan gynnwys yr holl dirfeddianwyr, a chytuno arno cyn cais cynllunio.
- Defnyddio enghreifftiau o arfer gorau yn y DU ac Ewrop.
- Trin yr Uwchgynllun fel fframwaith hyblyg a 'dogfen fyw' gyda phroses ddylunio ailadroddol sy'n ymateb i wybodaeth newydd, profi ac adolygu i reoli dylunio a chyflawni yn yr hirdymor.
- Uwchgynllunio'r rhaglen a gweithdai dylunio i brofi syniadau a phrosesau ailadrodd gyda chynlluniau a modelau mewn senarios gwahanol.



Cynllun Fframwaith Strategol yn dynodi cyrchfannau a chysylltiadau allweddol..

I gyflawni hyn bydd yn rhaid i chi:

01. Sefydlu tîm uwchgynllunio y cytunwyd arno ar y cyd o'r dechrau gan gynnwys sgiliau o ran:

- Pensaerniaeth (gan gynnwys arferion gwahanol, gyda phenseiri proffil Ewropeaidd/DU o ran cynlluniau mawr);
- Pensaerniaeth tirlun;
- Dylunio trefol;
- Trafnidiaeth;
- Peirianeg;
- Ecoleg;
- Cynaliadwyedd;
- Rheoli Projectau;
- Rheoli a chaffael ariannol/ystadau;
- Rheoli a chynllunio datblygu;
- Cynnwys rhanddeiliaid a'r cyhoedd;
- Treftadaeth ac archeoleg;
- Artistiaid a chynhyrchwyr creadigol.




Diagram Uwchgynllunio Allweddol sy'n cynnwys adeiledd blociau dangosol

Sherford, Llyfr Uwchgynllunio (2006): hyd at 5500 o aneddiadau, manau masnachol, canolfannau cymdogaeth, ysgolion a manau gwyrdd. Strategaeth safle'n seiliedig ar 'gymdogaethau cerddadwy' gan ddefnyddio rhesymeg seiliedig ar ymchwil Defnyddiodd Ymddiriedolaeth y Tywysog broses gydweithredol Ymchwilio drwy Ddylunio

02. Cynnwys y cyflwyniad canlynol o'r uwchgynllun (croesyfeirio Atodiad A):

- Gweledigaeth;
- Nodau ac Amcanion;
- Crynodeb o'r Fethodoleg;
- Dadansoddiad darluniadol o gyd-destun ffisegol, amgylcheddol, polisi, cymdeithasol ac economaidd;
- Crynodeb dangosol i sefydlu cyfleoedd a chyfyngiadau;
- Cynllun fframwaith strategol;
- Diagram uwchgynllun allweddol;
- Cynlluniau ar wahân yn cynrychioli haenau thematig y diagram allweddol;
- Darluniadau artistiaid, diagramau a ffotograffau ar gyfer meysydd allweddol;
- Strategaeth Camau a Gweithredu gan gynnwys y Rhaglen¹.

03. Fel rhan o'r Crynodeb o'r Fethodoleg, cyfeirier at yr holl strategaethau a datganiadau a restrir yn y ddogfen hon. Ymhlith yr enghreifftiau a ddewiswyd mae:

- Datganiad Dylunio;
- Strategaeth Cymeriad Cymdogaeth gan gynnwys canolfan amldeffnydd;
- Strategaeth ynni;
- Strategaeth Ymgynghori a Chyfathrebu gyda'r Rhaglen. (Cynnwys profi dyluniad ac adolygu);
- Strategaeth Cyflawni (Mesurau clir o ran adeiladu, ariannu, camau gweithredu a seilwaith);
- Datganiad Rheoli a Chynnal a Chadw (Amlinellu perchenogaeth a rheoli hirdymor gan wahaniaethu deiliadaethau preswyl a masnachol).





Fig. 30 - Assembly of Urbanism

'Haenau thematig' / 'cynlluniau paramedr' sy'n dangos Upton, Safle F a G y Briff Datblygu, drafft, Mehefin 08'

Rhanbarth

DINAS

Anheddiad

Cymdogaeth

STRYD

Uwchgynllun i gyfeirio at sut mae cynigion yn effeithio ar bob graddfa

¹ Addaswyd o: CABE's Creating Successful Masterplans, A Guide for Clients (fersiwn wreiddiol 2004; gwe-fersiwn wedi'i diweddarau 2011)

02 Dwysedd datblygiadau

Beth ydym ni am ei gyflawni:

Llefydd dymunol i fyw ynddynt gyda chanolfannau cymdogaeth bywiog, hyfyw a chlir, strydoedd difyr, gwasanaethau hygyrch a chymysgedd o dai. Gwireddir hyn drwy ddefnyddio lefelau dwysedd priodol a phensaerniaeth bwrsasol wrth adeiladu.

Cyfle:

Amrywio dwysedd datblygu i greu:

- Fflatiau mawr o safon uchel;
- Tai teras;
- Tai pâr a thai sengl;
- Tai i bobl hŷn a thai cymorth;
- Tai hyblyg/y gellir eu haddasu;
- Dim modd gweld eu bod yn wahanol i dai fforddiadwy o edrych arnynt;
- Modelau deiliadaeth a meddiannaeth gwahanol

Ystodau dwysedd arferol a ffurfiau adeiladu.
Amrywio canllawiau o ran hierarchaeth stryd, cilfeydd ac eglurder.
Cynyddu dwysedd o safleoedd tir llwyd trefnol

Stryd neu ardal	Dwyster (dph cyf. net)	Uchder (lloriau)	Math yr uned
Canolfan aml-ddefnydd	50-75 DPH	4-6	Fflatiau a rhai tai teras
Prif gefnffordd yn hwyluso trafnidiaeth gyhoeddus	40-60 DPH	2.5-5	Y rhan fwyaf yn fflatiau a thai teras Gyda rhai tai pâr
Strydoedd eilaidd allweddol	40-60 DPH	2.5-4	Nifer gyfartal o dai teras cymysg a thai pâr
Strydoedd eilaidd a thrydyddol eraill	30-50 DPH	2-3	Tai teras, pâr, sengl

I gyflawni hyn bydd angen i chi:

01. Gynnwys Strategaeth¹ Cymeriad Cymdogaeth gan gynnwys dwysedd a chymeriad.

02. Defnyddio amrywiad yn lled strydoedd yn yr hierarchaeth strydoedd ynghyd â mathau arloesol o dai gan ddefnyddio pellteroedd ar wahân agosach heb gyfaddawdu ar amwynderau.

03. Dangos sut y cyflawnir manau amwynder arloesol.

¹ Yn gyffredinol, yn nodi dwysedd o ran Aneddiadau yr Hectar (AH) NET a Gros. Gweler Urban Design Compendium 2, English Partnerships gynt.



Tai teras a ddyluniwyd yn bwrsasol â man amwynder preifat a chyhoeddus, Accordia, Caergrawnt, 67DPH Net



Fflatiau uwch y siopau, 3-5 llawr Amsterdam



Sherford, mae ardaloedd dwysedd gwahanol yn sicrhau bod digon o bobl mewn ardaloedd allweddol i gefnogi gwasanaethau lleol. Gwaith mewn cydweithrediad â 'chynlluniau paramedr' i greu ardaloedd datblygu a chymeriad eglur. Dwysedd cyfartalog safle 50PH net

03 Coridorau trafnidiaeth gynaliadwy

Beth ydym ni am ei gyflawni:

System drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat gynaliadwy a hyfyw. Llwybrau uniongyrchol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus aml, gyflym a dibynadwy (trenau, tramiau, bysus), beicwyr a cherddwyr, sy'n cysylltu cartrefi â chyrchfannau allweddol, canol y ddinas, y bae, cyflogaeth, canolfannau cymdogaeth, ysgolion a'r rhanbarth ehangach. Mesurir hyn drwy gyflawni hollt modal 50:50.

Cyfle:

- Dylunio ac annog newid i drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio i deithiau dyddiol.
- Bydd coridor trafnidiaeth gynaliadwy strategol fel arfer yn:
 1. Brif ffordd/rhodfa yn cysylltu cyrchfannau allweddol wedi'u dylunio ar gyfer nifer o fathau gwahanol o drafnidiaeth gan yna flaenoriaethu trafnidiaeth gyhoeddus, beicio, cerdded a chyfleusterau i geir preifat. Fflatiau dwysedd uwch a thair teras ar hyd llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a chau arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus;
NEU:
 2. Llwybr ymrwymedig i ddefnyddwyr penodol yn unig e.e. Taith Taf (cerdded a beicio).
 - Dylunio rhwydwaith priffyrdd sy'n cefnogi blaenoriaethau trafnidiaeth gynaliadwy a chanolfannau amldefnydd.

I gyflawni hyn bydd angen i chi:

01. Ddangos yn glir fod y rhwydwaith yn addas i bob dull trafnidiaeth.
02. Cynnwys adrannau darlunio mewn sawl man allweddol yn y rhwydwaith.
03. Dangos sut mae cyfleusterau, amldefnydd a chyflogaeth yn integreiddio â'r rhwydwaith ac arosfannau trafnidiaeth.



Reisfeld, tai dwysedd uchel ar gyfer y brif rodfa â thrafnidiaeth gyhoeddus



Llwybr bws tywys Caergrawnt



Cysylltiad beicio oddi ar y ffordd ar lwybr llydan, Parc Hyde



Tramiau wedi'u hintegreiddio â'r stryd, Barcelona

04. Profi rhannau o'r brif ffordd drwy ddarluniau cynllunio ac adrannau. Dangos digon o flaenoriaethu a dyrannu lle i gerddwyr a beiciau yn ogystal â hwyluso trafnidiaeth gyhoeddus a thraffig drwodd yn effeithlon.

05. Dangos yn glir lle mae gwahaniaethu rhwng defnyddwyr neu arwynebau a rennir.

06. Datblygu rhannau o'r stryd i bob topoleg stryd yn yr hierarchaeth strydoedd (prif ffordd/rhodfa i'r stryd bengaead/ manau a rennir) a defnyddio hyn i ddiffinio cymeriad pob stryd fel un unigryw. Cyflawni'r lefel gywir o symudiadau neu ddefnyddioldeb lle i'r math o stryd.


07. Sicrhau'r cydbwysedd iawn o ran athreiddedd i gerddwyr, beicwyr a cherbydau. Cynnwys mynediad cyfleus i bob rhan o'r safle gyda llwybrau diogel deniadol.



FIGURE 15: STREET HIERARCHY



The Mill DAS: Diagram yn dangos sut mae'r brif Rodfa'n rhan o hierarchaeth o strydoedd.



Enghraifft o ddarn arferol o rodfa, cynllun a darlun artist. Darn wedi'i addasu o Ddatganiad Dylunio a Mynediad The Mill; yn dangos elfennau allweddol fel parcio, tirweddau a chilfannau.

Strategaeth feicio sy'n cyfeirio at bob math o stryd angen cael ei llunio gyda'r hierarchaeth strydoedd ac adrannau.

04 Dewisiadau Teithio

Beth ydym ni am ei gyflawni:

Aneddiadau lle gall pobl gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ynddynt am mai'r rhain yw'r dewisiadau mwyaf deniadol a chyfleus.

Cyfle:

- Grid o lwybrau cerdded a beicio diogel, yn cysylltu cartrefi â thrafnidiaeth gyhoeddus, parciau, siopau, cyfleusterau cymunedol ac ysgolion.
- Strydoedd preswyl sy'n blaenoriaethu cerddwyr, beicwyr a chwarae i blant yn hytrach na lonydd cyflym i geir.
- Parcio hygyrch i feiciau a chlybiau ceir mewn cyrchfannau (e.e. Cyfnwidfeydd teithio, cyflogaeth a chanolfannau cymdogaeth).

I gyflawni bydd byddwch yn:

01. Defnyddio'r Llyfryn i Strydoedd 1 a 2.
02. Diffinio dull o ymdrin â thrafnidiaeth sy'n gwireddu gweledigaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy'r ddinas.
03. Cynnwys diagramau symud sy'n dangos y cysylltedd ac athreiddedd gorau sy'n addas ar gyfer:
 - Cerdded (tua phob 50m-100m)
 - Beicio (nodi ar y ffordd, oddi ar y ffordd, llwybrau a rennir ac ati)
 - Trafnidiaeth Gyhoeddus
 - Cerbydau preifat (cyfyngu ar athreiddedd)
04. Defnyddio dadansoddiad cwt beiciau / proffil hygyrchedd (ystyried ansawdd y llwybr, topograffi) gan nodi sut mae cartrefi o fewn:
 - 5 mun ar droed (400m) o arosfannau trafndiaeth gyhoeddus;
 - 10 munud ar droed (800m) o siopau a chyfleusterau.
05. Cynnwys strategaeth parcio a arweinir gan ddylunio trefol sy'n bodloni safonau parcio preswyl.
06. Nodi lleoliadau ar gyfer seilwaith ar y safle (e.e. llefydd parcio diogel i feiciau, clybiau ceir, cyfleusterau newid a chawodydd, i ateg Cynlluniau Teithio).
07. Nodi ar gynllun yn lle y defnyddir parthau cartrefi a chynnwys strategaeth a fydd yn cynnwys Grwpiau Mynediad wrth eu dylunio.
08. Dylunio cyfyngiadau zomya a nodweddion dylunio ar rwydweithiau ffordd mewnol.




Llwybr hamdden 'Cerdded Er Lles Iechyd' tua Morglawdd Caerdydd



Arwydd yn rhoi gwybod i bobl ar drefn strydoedd, egwyddorion parthau cartrefi

Consider first ↓ ↓ ↓ ↓ Consider last	Pedestrians
	Cyclists
	Public transport users
	Specialist service vehicles (e.g. emergency services, waste, etc.)
	Other motor traffic

Hierarchaeth defnyddwyr, Llawlyfr Strydoedd



Diagramau llwybrau cerdded a beicio, Aseiad Trafnidiaeth The Mill

05 Canolfannau cymdogaeth ac amldeffnydd


Beth rydym am ei gyflawni:

Canolbwynt hygyrch i gymdogaeth leol â ffocws cymdeithasol ac ymdeimlad cadarn o le y mae pobl yn mwynhau ei ddefnyddio a threulio amser ynddo. Lle deniadol a hyfw'n llawn bwrlwm masnachol a chymunedol drwy siopau, caffis, swyddfeydd ac adeiladau cymunedol yng nghyd-destun adeiladau cyffrous ac ardaloedd cyhoeddus o safon uchel.




Cyfle:

- Lleoli canolbwyntiau masnachol a defnyddiau cymdeithasol/diwylliannol i gael budd o fod mewn lle amlwg a manteisio ar fasnach sy'n deillio o drafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau i gerbydau, beicio a nifer uchel o bobl yn cerdded.
- Integreiddio'r canol yn agos â'r adeiledd bloc perimedr trefol ehangach yn hytrach na'u gosod ar wahân.
- Cynnwys datblygiadau dwysedd uwch ac adeiladau uwch yn y canol (h.y. fflatiau a thai teras) ac adeiladau amldeffnydd1 (manwerthu, cymdeithasol, diwylliannol a masnachol amrywiol gyda fflatiau uwch blaenau siopau masnachol).¹ Lleihau ar fylchau rhwng adeiladau i sicrhau amgaead digonol.
- Dylunio pensaernïaeth unigryw, adeiladau tirnod, tir cyhoeddus o safon uchel, plannu coed, tirwedd, palmentydd llydan, llefydd cyfforddus i eistedd allan, caffis stryd, bwytai a thafarndai, celfi stryd a chyfleusterau croesi, nodweddion difyr fel celf gyhoeddus ar safleoedd penodol (p'un ai'n barhaol, a arweinir gan y gymuned, dros dro ac ati), nodweddion dŵr, SDCau, manau gwyrdd a lle chwarae i blant.
- Dylunio man cyhoeddus pwrpasol, wedi'i amgáu, gyda thirwedd caled a/neu feddal fel y bo'n briodol i'r:
 - Unedau cyfagos (e.e. caffi, archfarchnad ac ati);
 - Lleoliad a maint y canol (e.e. stryd fawr brysur, stryd ochr ddistaw, neu ganol pentref);
 - Symudiadau a ragwelir o ran trafndiaeth heibio'r lle;
 - Anghenion mynediad a gwasanaethu;
 - Cymeriad a chyd-destun gan gynnwys golygfeydd;
 - Microhinsawdd gan gynnwys llwybrau haul a gwynt.



Dickens Heath, Solihull. Canol pentref masnachol newydd â 30,000 troedfedd sgwâr o le manwerthu, gydag archfarchnad fechan a swyddfeydd. Mewn lle amlwg oddi ar y brif stryd drwy'r gymdogaeth



Dadansoddiad cwt beiciau' yn dangos parthau o fewn 5 a 10 munud ar droed Mae gan ganol ardal Albany Road gysylltedd da drwy'r strydoedd i'r trigolion cyfagos (Pennod 2)

¹ Urban Design Compendium 2, English Partnerships gynt, gweler Pennod 2)

- Cysylltu egwyddorion yn y canllawiau hyn â diffiniadau polisiau manwerthu a chynllunio o ganolbwyntiau (e.e. Canol Ardal neu Leol)
- Sicrhau hygrychedd i bawb drwy siarad â Fforymau Mynediad a'r Tîm Cydraddoldeb, yn arbennig wrth gynnig unrhyw lefydd a rennir;
- Cydleoli defnyddiau addas yn yr un adeilad (e.e. neuadd bentref a lle amlbwrpas) i gyd-gronni adnoddau. Cynnig strategaeth ar ran meysydd rheoli, cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir i greu hybiau amldefnydd â chymorth, addysg, cyngor a gofal iechyd cydlynol.
- Integreiddio unrhyw flaen archfarchnad â'r strydlun i sicrhau'r potensial economaidd mwyaf posibl. Defnyddio amryw atebion o ran parcio, fel llefydd ar y stryd a chyrtauu parcio yn y perimedr.
- Tai i bobl hŷn a phobl ag angen tai cymorth arnynt.
- Rhoi'r ysgol yn agos i'r canol a'i chysylltu drwy rwydwaith o strydoedd a llwybrau cerdded a beicio diogel.




Fig. 41 - Colonnades - Elevation

Enghraifft o ddull dylunio canolfan defnydd cymysg yn Upton, Briff Datblygu Safle F a G, Drafft,



Mannau bywyd-gwaith gyda gwaith i nodi'r safle, Bryste.

I gyflawni hyn byddwch yn:

01. Cynnwys Strategaeth Cymeriad Cymdogaeth (Ardal/Canol Lleol/ Amldefnydd) sy'n dynodi ystod y defnyddiau, maint, lleoliad dewis (a gefnogir gan ymchwil gyd-destunol, profion senario a chyfiawnhad), cymeriad, adeiladau pwysig, cysylltiadau, manau allweddol a threfniadau cyffredinol.

02. Cynnwys strategaeth trafndiaeth gyhoeddus, mynediad i gerddwyr a beicwyr, meysydd parcio a gwasanaethu. Amlinellu'r ffordd y caiff symudiadau traffig yn rhwydwaith trafndiaeth presennol Caerdydd a'r hyn sydd angen mynd i'r afael ag ef.

03. Nodi adeiladau'n strategol ar hyd llwybrau allweddol gyda blaenau defnydd cymysg a ganiateir e.e. swyddfeydd, gweithgynhyrchu neu dafarn gornel. Gall hyn hwyluso bethau newid dros amser. hyblygrwydd yn yr




Diagram cyd-destunol yn mesur hygrychedd a cherddiadwyedd. Sherford Masterplan Book, yn seiliedig ar Shaping Neighbourhoods, Barton et al, 2il arg. 2010.

o6 Cynllun tai a chymeriad unigryw

Beth rydym am ei gyflawni:

Llefydd yn llawn cymeriad a phersonoliaeth, gydag adeiladau, strydoedd a mannau hyfryd, difyr a nodedig. Cynllun sy'n galluogi pobl i symud o amgylch yr ardal yn hawdd gan hwyluso ystod o ffyrdd o fyw ac ystodau oedran.

Cyfle:

- Ardaloedd preswyl o bob maint wedi'u dylunio'n dda o gymdogaethau, strydoedd i erddi blaen.
- Trefniant adeiladau, maint a ffurf adeiladau yn diffinio strydoedd a mannau wedi'u hamgáu'n ddigonol gan sicrhau golygfeydd gorau. Does dim man 'gweddilliol' nas diffinnir heb rôl neu ddiben clir.
- Adeiladau, plotiau, parseli, strydoedd a mannau wedi'u dylunio gan benseiri yn creu treflun difyr ac adeiladau unigryw.
- Triniaethau esgyniadol unigryw ar fathau safonol o dai i ffurfio rhan o gymeriad ardaloedd a'r hierarchaeth strydoedd. Lleihau'r defnydd ad-hoc a mympwyol o ddeunyddiau.
- Mannau gwyrdd a chyhoeddus diffiniedig, diogel, deniadol a chyfforddus i oedolion a phlant fel llefydd canolog yn y cynllun, i greu cyfleoedd i wneud gweithgareddau.
- Blaen adeiladau parhaus gyda llawer o ddrysau a ffenestri i gartrefi
- Mannau amwynder preifat ac a rennir wedi'u rhannu'n glir a'u dylunio at ddefnyddwyr penodol, maint unedau, lleoliad a hygyrchedd.
- Digon o le yn yr uned, plot a'r stryd, cyfleusterau byw cynaliadwy e.e. storfa feiciau, rheoli gwastraff cynaliadwy ac anghenion oes.
- Deunyddiau arwyneb a chelfi stryd cadarn o safon uchel yn diffinio cymeriad y stryd a'r hierarchaeth defnyddwyr (gweler Llawlyfr Tir Cyhoeddus Caerdydd).



deunyddiau o safon uchel a manwl gywirdeb yn bensaernïol wrth ddylunio'r adeilad newydd hwn, sy'n adlewyrchu'r steil adeiladu



Amgaead amrywiaeth o adeiladau a thoeon, nenlin ddifyr ac ymateb i dopograffi a thirlun y safle yn Portishead



Strydoedd defnydd a rennir yn arafu traffig. Blaenoriaethu cerdded, chwarae a beicio gan gynnwys ardaloedd eistedd. Pensaerniaeth bwrpasol, cynllun tai, amgáu strydoedd a gwaith ar dir cyhoeddus i greu ymdeimlad o Street.

I gyflawni hyn byddwch yn:

o.1 Diffinio cymeriad, dull dylunio a deunyddiau'r Strategaeth Cymeriad Cymdogaeth

o2. Dangos egwyddorion NCT 12: Dylunio, Llawlyfr i Strydoedd 1 a 2 ac arfer gorau mewn canllawiau dylunio trefol wrth ddylunio a chynllun.

o3. Cyfleu cysyniad dylunio cyffredinol cryf a gweledigaeth sy'n mynd y tu hwnt i arferion dwysedd tai wrth adeiladu tai.

o4. Cynnwys Strategaeth Pensaerniaeth Bwrpasol yn nodi ardaloedd (e.e. Canolfannau Cymdogaeth, rhodfeydd dwysedd uwch ac ardaloedd cymeriad) i'w dylunio drwy fframwaith o benseiri arfer gorau yn y DU ac ardaloedd hunan-adeiladu.

o5. Cynnwys dosbarthu gofodol rheolaidd mewn mannau amwynder gwyrdd / chwarae bach a mwy pwrpasol ym mhob ardal breswyl.

o6. Defnyddio ffotograffau a diagramau i gefnogi haenau thematig yn yr uwchgynllun allweddol (e.e. ardaloedd cymeriad, uchder adeiladau, parcio, dwysedd, adeiladau canolog ac ati).

o7. Llunio paramedrau/codau dylunio strydoedd a mannau allweddol. Sicrhau integreiddio ar draws pob parcel tir a ffiniau graddoli. Cynnwys ystod a math y deunyddiau ar gyfer adeiladau a thir cyhoeddus a lle/sut y caiff deunyddiau gwahanol eu defnyddio.

o8. Integreiddio llefydd parcio i geir yn llawn yn y cynllun stryd. Cynnig atebion parcio gwahanol (ar y stryd/plot/cyrtiau parcio/islawr/isgrofft) i fathau a dwyseddau tai gwahanol. Amlinellu effeithlonrwydd, cyfleuster, diogelwch, strydoedd actif ac effaith weledol.

o9. Comisiynu celf gyhoeddus sy'n ymateb i le, yn datgelu ac yn ehangu ar ei ystyr, gwerth a chymeriad unigryw, yn rhyngweithiol (gan gynnwys goleuadau a nodweddion dŵr adnodd-effeithlon) ac yn helpu i wella ymdeimlad o le i roi lliw i bontydd ac isffyrdd.



Staithes South Bank, Taylor Wimpey, mewn partneriaeth â Hemingway Design



Unedau teuluol dwysedd uchel mawr gyda digon o le amwynder allanol, Sweden (drwy gwrteisi White Architecture)..



Hanham Hall, adeiladau 4 llawr â phensaerniaeth ynni effeithlon i greu amgaead ar hyd y brif stryd Integreiddio amrywiaeth o fesurau parcio sensitif, triniaethau ffiniau a thirwedd.



Adeiladau'n diffinio man gwyrdd canolog ffurfiol, Gardd Bentref

07 Integreiddio ag ardaloedd cyfagos

Beth rydym am ei gyflawni:

Llefydd lle gall pobl symud yn hawdd rhwng cymdogaethau newydd a hen drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Ardaloedd â chymeriad unigryw a ddiffinnir gan adeiladau neu dirwedd caled a meddal, lle mae datblygiadau creu blaenau ar hyd strydoedd a manau.

Cyfle:

- Wrth drin ymylon y safle a lefel yr integreiddiad mae angen dadansoddi'r ardal gyfagos gan ystyried themâu megis:
 - Blaen a chefn adeiladau;
 - Datblygiad hanesyddol a nodweddion treftadaeth;
 - Gwead trefol;
 - Cyfleusterau, canolfannau a defnydd cymysg cyfredol;
 - Cyrchfannau allweddol;
 - Cyd-destun tirweddau a bioamrywiaeth;
 - Cyfleoedd i greu cysylltiadau a gwneud gwelliannau.
- Lleoli cyfleusterau cymunedol a chymdeithasol â chysylltiadau da fel bod cymunedau hen a newydd yn gallu cerdded a beicio drwyddynt.
- Gall digwyddiadau creu llefydd creadigol fod yn gyfle i artistiaid a chymunedau gydweithio, i rannu a datblygu syniadau, sgiliau a phrofiadau.

I gyflawni hyn byddwch yn:

01. Llundio dadansoddiad cymeriad cyd-destunol a strategaeth sy'n cyfiawnhau yn lle y bwriedir cyfuno datblygiadau hen a newydd ynghyd; lle cynigir creu cysylltiadau rhwng ardaloedd; a lle y bo'n briodol creu gwahaniad sy'n diffinio'n glir ardaloedd sy'n creu argraff arnoch wrth eu cyrraedd.

02. Cael adborth gan gymunedau lleol yn fuan yn y broses



Poundbury, tai'n edrych dros fan agored



Yn Upton, Northampton, defnyddiwyd nifer o dechnegau gwahanol i gydblythu'r datblygiad hen â'r newydd.

o8 Mannau gwyrdd a glas agored strategol cysylltiedig

Beth rydym am ei gyflawni:

Rhwydwaith cysylltiedig o fannau gwyrdd, dyffrynnoedd afonig, ardaloedd bywyd gwylt a chaeau chwaraeon. Parhad o'r 'ysgyfaint gwyrdd' y mae nifer o ardaloedd o'r ddinas yn elwa ohono ar hyn o bryd, gan gynnwys nodwedd dŵr ym mhob safle.

Opportunity:

- Seilwaith gwyrdd a glas cysylltiedig
- Mannau gwyrdd ymarferol, amldeffnydd yn aml a ddylunnir â rôl a phwrpas diffiniedig.
- Ardaloedd gwyrdd ffurfiol, parciau trefol, ag ardaloedd chwarae naturiol, cyfleusterau chwaraeon, caeau chwarae, rhandiroedd ac ardaloedd tyfu bwyd cymunedol llai, mewn llefydd cysylltiedig, hygyrch â goruchwyliaeth dda.
- Mannau gwyrdd anffurfiol, llwybrau hamdden, ardaloedd bioamrywiaeth a SDCau a leolir yn briodol (yn seiliedig ar arolygon ecolegol ac ati) a lle rheolir hygyrchedd yn unol â hynny.

To deliver this you will:

01. Cynnwys dadansoddiad â diagramau o'r seilwaith gwyrdd presennol sydd o amgylch, ac yn y safle (e.e. Coridorau Afon ac ati), nodweddion naturiol (e.e. coed a gwrychoedd ac ati), cyfleusterau (e.e. caeau chwarae ac ardaloedd chwarae), manau agored, hawliau tramwy a thopograffi. Dehongli adroddiadau technegol a nodi nodweddion â dynodiadau ffurfiol a'r rhai hebddynt;
02. Dangos blaenoriaeth i nodweddion naturiol â chyfiawnhad clir o ran sut y cânt fudd o'r cyd-destun newydd;
03. Cynnwys strategaeth seilwaith gwyrdd drwy ddangos yn lle bydd y coridorau gwyrdd yn cysylltu â choridorau, parciau neu gefn gwlad, ar y safle ac o'i amgylch.
04. Cynnwys diagramau ac adrannau i ddangos ardaloedd allweddol e.e. llwybrau hamdden cysylltiedig i gerddwyr a beicwyr, coridorau cynefinoedd, chwaraeon a chwarae ac ati. Nodi'r defnyddwyr y mae pob man gwyrdd ar eu cyfer boed yn rhai amldeffnydd neu'n rhai at ddefnydd penodol.
- 05 . Amlinellu strategaeth rheoli a chynnal a chadw.



Parc Bute, rhan o Goridor Afon Taf



Bae Caerdydd



Perthynas ryngweithiol â'r dŵr, Stockholm



Ardal chwarae naturiol, the Triangle,



Rhandiroedd ac ardal gompost Hanham Hall

Lodge Hill, Seilwaith Gwyrd a Darparu – yn dangos drwy ddiagramau sut mae seilwaith gwyrd yn ymateb i'r broses uwchgyllunio.






Gweledigaeth,
Amcanion a
Strategaethau
Cyffredinol



Cysylltedd y safle



Prof ardal oedd
allweddol â



og Tirlun, bioamrywiaeth, treftadaeth a'r Gymraeg

Beth rydym am ei gyflawni:

Llefydd dwyieithog lle gall pobl gydnabod a dathlu'r dirwedd, bioamrywiaeth a gwerth treftadaeth. Nodweddion sydd wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol â'r ardal i ddatblygu cymeriad unigryw Caerdydd a Chymru a mynegi'r unigrwydd hwn.

Cyfle

- Adlewyrchu elfennau o unigrwydd pensaernïaeth Gymreig wrth ddylunio a chreu.
- Cynnwys enwau llefydd, arwyddion, cyfleusterau cymunedol dwyieithog a chyfleoedd ieithyddol.
- Ailddefnyddio ac integreiddio unrhyw nodweddion difyr – adeiladau o ddiddordeb lleol, gan ddefnyddio syniadau creadigol ac arloesol.
- Creu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â, a chael mynediad i, unrhyw nodweddion na gedwir i'r gymuned lle y bo'n briodol.
- Integreiddio golygfeydd o'r tirlun yn y cynllun a rhoi cyfleoedd i osod coed a gwneud gwaith tirweddu mewn gerddi blaen ac ar strydoedd.

I gyflawni hyn byddwch yn:

01. Dangos dadansoddiad a strategaeth gyd-destunol o sut mae tirwedd, bioamrywiaeth, y celfyddydau, treftadaeth (statudol ac anstatudol), pensaernïaeth, nodweddion cymeriad, deunyddiau, lliwiau, topograffi a choridorau â golygfeydd wedi dylanwadu ar ddyluniad a chynllun. Gwahaniaethu rhwng nodweddion a gedwir a rhai newydd, yn dangos sut y byddant yn gwella'r lle.

02. Nodi pa agweddau fydd modd i'r cyhoedd eu dehongli neu gael mynediad atynt.

03. Amlinellu pa elfennau o bensaernïaeth Gymreig (neu un draddodiadol Caerdydd) a'r Gymraeg a ddefnyddir mewn ardaloedd cymeriad a phensaernïaeth a pham. Ceisio dehongliad gwreiddiol ac edrych y tu hwnt i driniaeth ffasâd â manylion pastiche.

04. Nodi sut defnyddir y Gymraeg wrth enwi llefydd, strydoedd a chyfleusterau.



Hanham Hall, SDCau Gradd II
Rhestredig amldefnydd â thirweddu
ffurfiol sensitif



Y Maes, Caernarfon. Statws Treftadaeth y
Byd. Ffynhonnell. Maes [http://dcfw.org/
castle-square-caernarfon](http://dcfw.org/castle-square-caernarfon)



Arysgrif Gymraeg gan y bardd Gwyneth
Lewis ar Ganolfan y Mileniwm



Dysgu am fioamrywiaeth, Stockholm [www.
shapemytown.org](http://www.shapemytown.org)

10 Effeithlonrwydd adnoddau a thechnoleg

Beth rydym am ei gyflawni:

Aneddiadau cynaliadwy at y dyfodol sy'n hyrwyddo perthynas gadarnhaol rhwng adnoddau naturiol, y defnydd o ynni, technoleg, pobl a llefydd.

Cyfle

- Ystyried dulliau arloesol o ran carbon isel a dim carbon.
- Blaenoriaethu'r berthynas rhwng dŵr, pobl a llefydd i gynnig atebion integredig o reoli risg llifogydd. Cyfeirio at CIRIA Water Sensitive Urban Design. Integreiddio SDCau yn lle defnyddio ymylon arunig.
- Cynlluniau sy'n gwneud y mwyaf o'r haul
- Canolbwyntio ar strategaethau dylunio effeithlon a goddefgar i leihau'rgalw am ynni (e.e. ymdrin â ffabrig yn gyntaf). Ystyried cyfleoedd o ran ynni cynaliadwy a seilwaith ynni ar y safle cyfan.
- Cynnwys manau cymunedol i bobl eu haildefnyddio, ailgylchu a chompostio.
- Cynnwys mesurau newid yn yr hinsawdd i addasu dyluniad, adeiladau, seilwaith a thirwedd, strydoedd a manau.
- Gweithio gyda Caerdydd Ddigidol i fuddsoddi mewn seilwaith digidol e.e. band eang a diwifr i fusnesau, trigolion, ymwelwyr ac addysg.

I gyflawni hyn byddwch yn:

01 Cynnwys strategaeth ynni, gwastraff a chynaliadwyedd sy'n nodi gweledigaeth ac amcanion cynaliadwyedd, gan fynd i'r afael â'r holl gyfleoedd a amlinellir uchod. Cyflawni asesiad annibynnol o ynni yn amlinellu hyfywedd ariannol ac ymarferoldeb technegol.



Integreiddiwyd yn sensitif â phantiau, Scotland Expo Housing, Inverness



Solarsiedlung (Pentref Solar), Freiburg, tir cyhoeddus da a thrhinaethau ffin llwyddiannus wedi'u cynnwys â chynllun tai sy'n wynebu'r de.



Tŷ Unnos, cartref ynni isel, Glynwby (Uned Ymchwil Dylunio Cymru)



Adeilad cynaliadwy'n sensitif i'w gyd-destun, Tŷ Pren, Powys, www.feildenfowles.co.uk/projects/typren/

Atodiad A: Gwaddol

Sicrhau ansawdd ym mhob cam o'r datblygiad; nid yn unig yn ystod y broses gwneud cais ond hefyd wrth adeiladu ac wedi hynny. Gall gwaith i gwblhau rhai ffyrdd, parciau a chyfleusterau barhau am flynyddoedd ar ôl cael caniatâd cynllunio, ymhell ar ôl i drigolion newydd y cartrefi cyntaf symud i mewn.

Rheoli'r Project a Chyfrifoldeb Drosto

Mae gan y Cyngor ethos cydweithredol ac mae datblygiad cymunedau / canolfannau cymunedol cwbl integredig a chyfleusterau sy'n cynorthwyo ag ymrymuso cymunedau a chydlyniant eu hangen.

Dylid defnyddio rhaglenni Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol Datblygwyr mewn ffordd a fydd yn alinio â gweledigaethau'r Cyngor a datblygu ardal gymunedol cryf yn yr aneddiadau sy'n cael eu creu, y bydd cwmnïau'n allweddol wrth eu llunio.

Dylai'r datblygwr, y gymuned a'r awdurdod lleol drafod trefniadau rheoli a chynnal a chadw. Wrth ddylunio manau cyhoeddus â thirweddau caled, mae anghenion ardal angen bodloni gofynion gwasanaeth wrth osod cyfleustodau.

Caniatâd Cynllunio

Fel rhan o'r broses o rai caniatâd cynllunio o ran Materion wedi'u Cadw'n Ôl, dylid cyflwyno cynlluniau manwl i ardaloedd (e.e. cyrbau is i sicrhau hygyrchedd, cynlluniau goleuo i sicrhau digon o oleuadau mewn manau cyhoeddus a chyrtau parcio).

Cyflwyno cynlluniau i ymrannu / nodi perchenogaeth gyhoeddus a phreifat yn glir.

Mabwysiadu strydoedd a manau

Mae'n bwysig lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â'r briffordd a fabwysiadwyd a'r seilwaith trafnidiaeth. Mae angen cynnal trafodaethau ar fabwysiadu priffyrdd a hygyrchedd hirdymor neu oblygiadau llywodraethiant i'r gymuned leol o ran unrhyw strydoedd, manau neu barciau wedi'u rheoli'n breifat.

Rheoli contractwyr ar y safle

Dewis contractwyr o safon uchel sy'n cydymffurfio â chynlluniau, yn cyflawni gwaith adeiladu ac sy'n bod yn fanwl gywir.

Tai

Dylid achub ar y cyfle i wneud trefniadau rheoli amgen gan gynnwys rhai cydweithredol, 3ydd sector a modelau rhannu rheoli i rai datblygiadau tai fforddiadwy, tai preifat a thai rhent.

Dylid rhoi strategaeth ar waith sy'n sicrhau bod yr holl gymdeithasau tai yn rhan lawn o'r gwaith o greu'r aneddiadau newydd mewn ffordd gytbwys.

Atodiad B: Rhestr Wirio Uwchgynllun


1. Dull / proses uwchgynllunio	1a) Penodi tîm uwchgynllunio y cytunwyd arno ar y cyd	
	b) Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o'r holl randdeiliaid perthnasol	
	c) Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion	
	d) Crynodeb o'r Fethodoleg	
	e) Crynodeb o'r cyd-destun ffisegol, polisi a chymdeithasol ac economaidd. Mae tystiolaeth ar amrywiaeth o lefelau'n briodol gan gynnwys: Rhanbarthol; Dinas; Ardal; Cymdogaeth; Stryd	
	f) Crynodeb darluniadol i ddysgu beth yw'r cyfleoedd a'r	
	g) Cynllun fframwaith strategol	
	h) Diagram uwchgynllun allweddol	
	i) Cynlluniau ar wahân yn cynrychioli haenau thematig o'r diagram	
	j) Darluniadau artistiaid, diagramau a ffotograffau ar gyfer	
	k) Strategaeth Camau a Gweithredu gan gynnwys Rhaglen	
	l) Datganiad Dyluniad a Strategaeth Cymeriad Cymdogaethau	
	m) Strategaeth ynni	
	n) Strategaeth Ymgynghori a Chyfathrebu gyda'r Rhaglen	
	o) Cyflawni'r Strategaeth	
p) Datganiad Rheoli a Chynnal a Chadw		
2. Dwysedd datblygu	2a) Strategaeth Cymeriad gan gynnwys parthau dwysedd a	
	b) Uchder adeiladau	
	c) Cymysgedd o fathau o dai	
	d) Darluniau ac enghreifftiau sy'n egluro sut y caiff ardaloedd dethol o'r diagram parthau dwysedd eu cyflawni'n adeiledig. Cynnwys gwybodaeth am bellter gwahanu a pharcio	
	e) Dosbarthiad y tai fforddiadwy	
3. Coridorau trafndiaeth gynaliadwy	3 a) Coridorau strategol, sut maent yn cysylltu â'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ac arosfannau	
	b) Mathau o drafndiaeth gyhoeddus	
	c) TIS/trefniadau trafndiaeth graddol	
	d) Nodi gwaith posibl oddi ar y safle	
	e) Cynllunio ac ymrannu (graddfa odd. 1:200) mewn mannau allweddol	
	f) Symudiadau defnyddwyr (cerddwyr, beicio, trafndiaeth gyhoeddus, cerbydau preifat) rhwng y prif goridorau, arosfannau	
4. Dewisiadau teithio cynaliadwy	4 a) Diffinio'r Dull Trafndiaeth Gynaliadwy	
	b) Diagram symudiadau manwl o ran cerdded, beicio, trafndiaeth gyhoeddus a cherbydau preifat	
	c) Seilwaith trafndiaeth gyhoeddus	
	d) Dadansoddiad / proffil hygyrchedd cytiau beiciau	
	e) Asesiad trafndiaeth i bob dull teithio (gan gynnwys asesiad	
	f) TIS/trefniadau trafndiaeth graddol	
	g) Nodi gwaith posibl oddi ar y safle	
	h) Strategaeth parcio wedi'i harwain dan ddylunio trefol, cymhareb, ffurf a threfniadau	
	i) Ardaloedd 20mya a pharthau cartrefi	
	j) Cynlluniau Teithio, seilwaith ar y safle a mesurau anffisegol	

5. Canolfannau cymdogaeth	5 a) Strategaeth Canol Cymdogaeth/Ardal gan gynnwys profion seiliedig ar dystiolaeth o leoliadau a phoblogaeth y dalgylch	
	b) Cysylltu llwybrau symudiadau (cerdded, beicio, trafndiaeth gyhoeddus, cerbydau cyhoeddus)	
	c) Ardaloedd amlddefnydd, gofod llawr ac adeiladau at ddibenion	
	d) Dangos cynllun, ffurf, mynedfeydd, llefydd parcio, parcio i feiciau, gofod gwasanaethu, tir cyhoeddus (graddfa odd. 1:500). Ategu argraffiadau artist ac enghreifftiau.	
	e) Cymdeithasol / masnachol / seilwaith iechyd / darparu.	
	f) Strategaeth rheoli ac atebolrwydd	
6. Cynllun a chymeriad unigryw tai	6 a) Datganiad Cymeriad Cymdogaeth	
	b) Ardaloedd cynllun pwrpasol	
	c) Cysyniad dylunio cryf cyffredinol sy'n mynd y tu hwnt i'r dull adeiladu tai dwysedd safonol.	
	d) Diagramau thematig sy'n ategu'r diagram allweddol yr Uwchgynllun (ardaloedd cymeriad, athreiddedd, treflun, hierarchaeth stryd, strydoedd a mannau allweddol, canolbwyntiau ac ati).	
	e) Cynllun manwl ac adran yn dangos pob math o hierarchaeth stryd (prif ffordd/rhodfa at y stryd bengaead/mannau a rennir) ac unrhyw fannau allweddol eraill neu gyffyrdd (Graddfa odd. 1: 200).	
	f) Egwyddorion dylunio strydoedd/strategaeth tir cyhoeddus gan gynnwys argraff arlunydd ar bob stryd a man allweddol. Trin arwyneb, celfi stryd, triniaeth mylon, plannu coed, tirweddu meddal a chaled, math o adeiladau a chelf gyhoeddus.	
	g) Cyfeirio at arfer gorau wedi'i feincnodi	
	h) Golygfeydd allweddol i'r safle ac oddi wrtho	
	i) Triniaeth bensaernïol	
	j) Amserlen, defnyddiau, gofod llawr a math o annedd a thir a gymerir	
7. Integreiddio ag ardaloedd cyfagos	7 a) Dadansoddiad cyd-destun/cymeriad ac adborth cymunedol yn llywio'r strategaeth sy'n amlinellu integreiddio, cysylltiadau neu wahanu mylon y safle. Graddfa ddigonol fanwl.	
8. Mannau agored gwyrdd a glas cysylltiedig strategol	8 a) Dadansoddiad o seilwaith a thopograffi gwyrdd sy'n bodoli. Blaenoriaethu'r nodweddion naturiol sydd i'w	
	b) Strategaeth Seilwaith Gwyrdd	
	c) Strategaeth Rheoli a Chynnal a Chadw i POS newydd/presennol	
	d) Cynllun mesurau lliniaru	
	e) Cyfrifol ardal POS newydd a'i mapio	
9. Tirlun, bioamrywiaeth, treftadaeth a'r Gymraeg	9 a) Dadansoddiad cyd-destunol a strategaeth yn dangos sut mae integreiddio'r tirlun, bioamrywiaeth, y celfyddydau, treftadaeth a'r Gymraeg	
	b) Dehongliad addysgol a chyfleoedd mynediad	
10. Effeithlonrwydd adnoddau a thechnoleg	a) Strategaeth Ynni, Gwastraff a Chynaliadwyedd, trothwyon cyflawni, mesurau lliniaru	
	b) Integreiddio SDCau a mesurau eraill i baratoi at newid yn yr hinsawdd wedi'u dylunio mewn strydoedd a mannau. Cynnwys manylion am reoli a chynnal a chadw.	
	c) Ardaloedd i'w hail-ddefnyddio, ailgylchu a chompostio	

Atodiad C: Nodyn proses


Cyn gwneud cais am Geisiadau Cynllunio Mawr

Nodi



Appendix C: Process note

Pre-application for Major Planning Applications



	5 a) Neighbourhood/District Centre Strategy includes evidence-based testing of locations and catchment population	
	b) Connecting movement routes (walking cycling, public transport, private vehicle)	
	c) Mixed-use areas, floorspace and buildings for flexible uses	
	d) Indicate layout, form, entrances, car-parking, cycle parking, servicing circulation space, public realm (approx scale 1:500). Supplement with artist impressions and exemplars.	
	e) Social/commercial/health infrastructure provision/delivery.	
	f) Strategy for management and accountability	
	6 a) Neighbourhood Character Statement	
	b) Areas for bespoke layout	
	c) Overall strong design concept that goes beyond standard volume housebuilder pattern-book approach.	
	d) Thematic diagrams underpinning key Masterplan Diagram (character areas, permeability, townscape, street hierarchy, key streets and spaces, focal points etc).	
	e) Detailed plan & section illustrating each type of street hierarchy (main spine road/boulevard through to mews/shared spaces) and any other key spaces or junctions (Approx. scale 1: 200).	
	f) Street design principles/public realm strategy including artist's impressions for each street and key space. Surface treatments, street furniture, boundary treatment, tree planting, soft and hard landscaping, building form and public art.	
	g) Reference to best practice bench-marked exemplars	
	h) Key views and vistas in and out of site	
	i) Architectural treatment	
	j) Schedule of accommodation, uses, floorspace and dwelling type and land take	
	7 a) Context/ character analysis and community feedback informs a strategy that outlines integration, connections or separation for edges of the site. Scale to show sufficient detail	
	8 a) Analysis of existing green infrastructure and topography. Prioritises existing natural features to be retained/enhanced.	
	b) Green Infrastructure Strategy	
	c) Management and Maintenance Strategy for new/existing POS	
	d) Mitigation measures plan	
	e) Calculation of new POS area and mapping	
	9 a) Contextual analysis and strategy showing integration of landscape, biodiversity, arts, heritage and Welsh language	
	b) Educational interpretation and access opportunities	
	10. Resource efficiency and technology	
